# **Adroddiad ar Wrthwynebu'r Cynnig i Gau Ysgol Llannefydd**

## **Conwy**

## **Hydref 2022**

**This document is also available in English.**

| | |
|---|---|
| 1 | Hysbysiad Statudol |
| 1.1 | Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol |
| 2 | Gwrthwynebiadau |
| 3 | Ymateb yr Awdurdod i'r Gwrthwynebiadau |
| 4 | Adborth ESTYN |
| 5 | Penderfyniad y Cabinet |
| 6 | Ymateb ESTYN |
| 7 | Ymateb ar y cyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Llannefydd a Chyngor Cymuned Llannefydd |

## 1. Hysbysiad Statudol

### 1.1 Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol

Ar 5 Medi 2022, yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet (12 Gorffennaf 2022), bu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyhoeddi Hysbysiad Cau, yn datgan y byddai Ysgol Llannefydd yn cau ar 31 Rhagfyr 2022. Fe sbardunodd hyn gyfnod rhybudd o 28 diwrnod a oedd yn rhoi cyfle i unrhyw fudd-ddeiliaid cysylltiedig gyflwyno eu barn am y cynnig.

Dechreuodd y cyfnod rhybudd ar 5 Medi 2022 a daeth i ben ar 4 Hydref 2022. Roedd hyn yn cynnwys diwrnod ychwanegol oherwydd bod Gŵyl y Banc ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n manylu ar y camau gofynnol y mae'n rhaid eu cymryd fel rhan o'r broses.

Bydd y ddogfen hon yn nodi'r camau a gymerwyd yn ystod y Cyfnod Rhybudd, yn cyfeirio at yr ymatebion a dderbyniwyd, ac yn anelu i ateb a mynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau sydd wedi cael eu cyflwyno i'r Awdurdod.

Anfonodd Conwy gopïau o'r Hysbysiad Statudol ar ffurf copi caled a dolen e-bost gan roi manylion ynglŷn â sut i wneud unrhyw sylwadau ar y cynnig. Gosodwyd yr Hysbysiad Statudol ar giatiau Ysgol Llannefydd ac roedd hefyd wedi'i gyhoeddi'n ddwyieithog ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghyd â'r holl ddogfennau eraill yn ymwneud â'r Cynnig. Mae'r tabl isod yn nodi'r rhestr o'r rhai a dderbyniodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

| Enw/Sefydliad |
|---|
| Athrawon a Staff Ysgol Llannefydd |
| Llywodraethwyr Ysgol Llannefydd |
| Pennaeth Ysgol Bro Gwydir |
| Yr Eglwys yng Nghymru / Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig Rufeinig |
| Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Ddinbych |
| Gweinidog Addysg a Sgiliau Cymru |
| Adran Rheoli ac Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru |
| Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli ardal y cynigion |
| Cynghorydd Sirol Conwy dros Llannefydd |
| Cyngor Cymuned Llannefydd |
| Estyn |
| Undebau Llafur Athrawon a Staff |
| GwE |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Darpariaeth Meithrin / Mudiad Meithrin |
| Comisiynydd y Gymraeg |

## 2. Gwrthwynebiadau


O dan adran 49 o Ddeddf 2013, pan fo gwrthwynebiadau wedi dod i law, rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebu"). Rhaid gwneud hyn:

(a) yn achos awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo benderfynu ar ei gynigion ei hun o dan adran 53 y Ddeddf, cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod ei benderfyniad: ac

(b) ym mhob achos arall, cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r cyfnod gwrthwynebu'n dod i ben.

At ei gilydd, cafwyd 44 o ymatebion i'r cynnig drwy ein ffurflen ymateb ar-lein erbyn hanner nos ar 4 Hydref 2022. Ni chafwyd unrhyw ymatebion drwy'r post. Cafwyd ymatebion gan ESTYN ac ar y cyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Llannefydd a Chyngor Cymuned Llannefydd dros e-bost.

Nid oedd yr adborth a dderbyniwyd gan gyn rieni, Llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned ehangach yn cefnogi'r cynnig. Dau yn unig oedd yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Llannefydd.





Cafwyd ymatebion gan y grwpiau canlynol:

| Grŵp Ymatebwyr | Nifer yr Ymatebion |
|---|---|
| Rhiant cyn-ddisgybl yn Ysgol Llannefydd | 30 |
| Aelod o staff mewn ysgol arall | 2 |
| Llywodraethwr Ysgol Llannefydd | 2 |
| Rhiant i blentyn mewn ysgol arall | 1 |
| Aelod o staff yn Ysgol Llannefydd | 1 |
| Parti arall â diddordeb: | 8 |

Mae ymatebion gan y grŵp "parti arall â diddordeb" yn cynnwys cyn ddisgyblion a phreswylwyr.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y broses yn wrthwynebiadau ond, yn hytrach, yn canolbwyntio ar gysylltiadau teuluol â'r ysgol ac yn mynegi tristwch ynghylch y posibilrwydd o weld yr ysgol yn cau. Mae detholiad wedi'i gynnwys isod er mwyn cyfeirio ato.



Mae'r ymateb ar y cyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Llannefydd a Chyngor Cymuned Llannefydd yn datgan:

| | |
|---|---|
| *"Mae trigolion dalgylch yr ysgol wedi dod i delerau â gweld yr Ysgol yn cau ac yn deall bod hynny, bellach yn anochel. Rhaid hefyd dderbyn y broses bresennol o gyfnod ymgynghorol, tra yn ymwybodol nad oes dim yn mynd i arbed yr ysgol rhag dod i ddiwedd ei chyfnod fel man addysgol nodedig.* | *TRANSLATED "The residents of the school's catchment area have come to terms with seeing the school close and understand that it is now inevitable. The current process of a consultation period must also be accepted, while being aware that nothing is going to save the school from coming to the end of its period as a notable educational place.* |
| *Mae yn naturiol felly, yn enwedig o feddwl am leoliad canolig y safle a'r ysgol yn y pentref, bod cwestiynau nawr yn codi ynghylch dyfodol y safle.* | *It is therefore natural, especially when thinking about the central location of the site and the school in the village, that questions now arise about the future of the site.* |
| *Mae'r gofid sy'n bodoli yn sgil y bwriad i gau'r ysgol wedi arwain at awydd gwirioneddol gan y trigolion i ymchwilio i'r posibilrwydd fod y Gymuned yn cymryd cyfrifoldeb hir dymor o'r safle, o bosib mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.* | *The sadness that exists as a result of the intention to close the school has led to a real desire from the residents to investigate the possibility of the Community taking long-term responsibility for the site, possibly in collaboration with a Council Conwy County Borough.* |
| *Mae amryw o syniadau wedi eu cynnig, sy'n berthnasol i'r brif weledigaeth o greu Hwb a man ymgynnull cwmpasol i bob oed. Byddai Hwb o'r fath yn gwasanaethu'r gymuned gyffredinol, gan amcanu i fod yn ffwlcrwm i hybu a chefnogi cymdeithasau a sefydliadau lleol. Fe fyddai pwyslais ar gyfleusterau ar gyfer hybu iechyd a lles - corfforol a meddyliol, ynghyd â darparu cefnogaeth ac anogaeth i'r iaith Gymraeg, ond heb elyniaethu trigolion di-Gymraeg."* | *Various ideas have been proposed, which are relevant to the main vision of creating Hwb and an inclusive gathering place for all ages. Such a Hub would serve the general community, aiming to be a fulcrum to promote and support local associations and organisations. There would be an emphasis on facilities for promoting health and well-being - physical and mental, together with providing support and encouragement for the Welsh language, but without antagonizing non-Welsh speaking residents."* |

Mae'r ymateb llawn wedi'i gynnwys ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## 3. Ymateb yr Awdurdod i'r Gwrthwynebiadau

Mae'r gwrthwynebiadau a gafwyd wedi eu crynhoi a'u grwpio i gategorïau yn ôl pwnc y gwrthwynebiad.

Mae'r categorïau fel a ganlyn:

- Y Gymraeg
- Y Gymuned Leol
- Tîm Arwain yr Ysgol
- Awdurdod Lleol

Er eglurder, bydd ymatebion yr awdurdod yn cael eu darparu ar bob un o'r grwpiau yn y tablau canlynol sy'n dilyn:

| Gwrthwynebiad | Ymateb yr Awdurdod |
|---|---|
| **Y Gymraeg** | |
| • "Mae ysgol yn galon y gymuned ac yn allweddol i gynnal a chadw'r iaith Gymraeg." *"A school is at the heart of the community and is key to maintaining and preserving the Welsh language"*<br>• "wrth gau yr ysgol byddai'n golygu fod plant o deuluoedd Cymraeg yn colli allan ar gael addysg Gymraeg lleol ag yn cael y gefnogaeth orau gan ei bod yn ysgol llai yng nghefn gwlad" *"closing the school would mean that children from Welsh-speaking families miss out on getting a local Welsh-language education that gets the best support as it is a smaller school in the countryside"*<br>• "Trwy gau'r ysgol mi fyddwch chi'n cau'r drws ar un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg yn sir Conwy." *"By closing the school you will be closing the door on one of the strongholds of the Welsh language in Conwy County."*<br>• "Angen cadw yr Ysgol ar agor i gynnal y gymuned ac annog y iaith Gymraeg yn yr ardal." *"Need to keep the School open to support the community and encourage the Welsh language in the area."* | Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy weledigaeth i sicrhau bod gan bob disgybl yn y sir sgiliau ieithyddol rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Fel rhan o'r weledigaeth hon, rydym eisiau sicrhau fod gan blant a phobl ifanc y sir bob cyfle i fod yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog / amlieithog y maent yn rhan ohoni a defnyddio'r iaith ar yr aelwyd, mewn cymunedau ac yn y gweithle.<br><br>Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i ddyheadau Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a bydd yn cyfrannu at y weledigaeth hon drwy gynyddu nifer yr unigolion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, yn ogystal ag ysbrydoli ac annog balchder plant a phobl ifanc yn sir yn yr Iaith Gymraeg, a threftadaeth a diwylliant Cymru.<br><br>I gefnogi'r weledigaeth a nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, bydd Cyngor Conwy yn parhau i hyrwyddo gweithrediad y Siarter Iaith ym mhob un o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg y sir i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg.<br><br>Gellir gweld manylion pellach ar ein tudalennau gwe. |
| **Y Gymuned Leol** | |
| • "Pentref heb blant yw pentref heb ddyfodol ac o anfon plant y pentref allan o'r gymuned mae'r pentref yn dlotach a'r gymdeithas yn pellhau oddi wrth ei gilydd. Ystyriwch cyngherddau, nosweithiau cymdeithasol a'r gymuned yn troi o gylch yr ysgol ac yn ei chefnogi." *"A village without children is a village without a future and by sending the village's children out of the community the village is poorer and the society grows further apart. Consider concerts,* | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn deall pwysigrwydd cymuned ar draws y sir, yn arbennig yn ein cymunedau gwledig.<br><br>Er nad yw Ysgol Llannefydd yn cael ei dosbarthu'n swyddogol fel ysgol wledig (Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru), yn dilyn ymgysylltu cychwynnol ynglŷn â gostwng nifer y disgyblion, cytunwyd, o ystyried maint a lleoliad yr ysgol, i'w thrin felly at ddibenion y cynnig hwn. |

| | |
|---|---|
| *social evenings and the community revolving around the school and supporting it.”*<br>• “Llannefydd is potentially a village where future houses will be built - to lose the school with the prospect of this future developments happening is crazy - short sighted approaches to rural education are not sensible for the local communities”<br>• Mae ysgol Llannefydd yn ased amhrisiadwy i'r Gymuned, bydd cau yr ysgol a pheidio a rhoi'r cyfle i blant sydd i ddod yn y blynyddoedd nesaf yn golled enfawr.<br>*“Ysgol Llannefydd is an invaluable asset to the Community, closing the school and not giving the opportunity to children who will come in the next few years will be a huge loss.”*<br>• Mae’n biti mawr cau ysgol wledig mor llwyddiannus a Ysgol Llannefydd! Mae angen dod o hyd i staff sydd yn frwdfrydig am yr ysgol a’i hardal, ac eisiau bod yn rhan o’r gymuned.<br>*“It is a great shame to close such a successful rural school as Ysgol Llannefydd! We need to find staff who are enthusiastic about the school and its area, and who want to be part of the community.”*<br><br>• “closing such a well-known and successful rural school such as Llannefydd would be a tragedy and would have a detrimental effect on the small tight knit rural community.” | Mae’r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn gwneud trefniadau arbennig ynglŷn ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau, sy’n ei gwneud yn ofynnol i Gonwy ddilyn cyfres o weithdrefnau a gofynion mwy manwl wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig.<br><br>Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod yn rhaid i’r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi’u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio.<br><br>Bu i Swyddogion ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio’r cynnig i gau’r ysgol ac wrth ymgynghori a dod i benderfyniad ynglŷn â gweithredu’r cynnig i gau neu beidio.<br><br>Roedd y cynnig a gafodd ei gyflwyno gerbron y Cabinet a’i dderbyn ar 12 Gorffennaf 2022, yn dangos nad yw safle neu adeilad yr ysgol yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned ar hyn o bryd.<br><br>Ar hyn o bryd, nid oes gan Ysgol Llannefydd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cyfleusterau gofal plant tu allan i’r ysgol. Nid oes Clwb ar ôl Ysgol neu Gylch Meithrin yn yr ysgol ac nid yw’n darparu unrhyw gyfleusterau ar gyfer defnydd cymunedol h.y. clwb ieuenctid / grŵp chwarae. |
| **Tîm Arwain yr Ysgol** | |
| Nid yw’r sylwadau a dderbyniwyd dan y pwnc hwn wedi cael eu cynnwys oherwydd bod rhai ohonynt yn cyfeirio’n uniongyrchol at unigolion neu grwpiau.<br><br>I grynhoi, mae’r sylwadau’n ymwneud â’r diffyg o ran hyrwyddo’r ysgol o fewn y gymuned a’r ardal leol i sicrhau nifer digonol o ddysgwyr yn y tymor hir.<br><br>Cyfeiriwyd hefyd at ddiffyg arweinyddiaeth ddeinamig i sicrhau perthnasau sefydlog a ffyniannus gyda budd-ddeiliaid. | Y corff llywodraethu sy’n gyfrifol am benodi staff yr ysgol.<br><br>Maent hefyd yn gyfrifol am safonau a rheolaeth yr Ysgol a gall yr Awdurdod Lleol a GwE ddarparu cefnogaeth lle bo angen. GwE yw gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol Gogledd Cymru, yn gweithio ochr yn ochr ac ar ran awdurdodau lleol Gogledd Cymru.<br><br>Arweinir y broses Rheoli Perfformiad gan y corff llywodraethu, a gallant ddilyn prosesau sgiliau pan fo materion rheoli angen sylw pellach.<br><br>Mae ganddynt fynediad at Lywodraethwyr Cymru ar gyfer hawliau a threfniadau’r corff llywodraethu.<br><br>Gall y corff llywodraethu gefnogi’r ysgol wrth hyrwyddo a marchnata’r ysgol i sicrhau proffil amlwg yn y gymuned leol a’r gymuned ehangach ac mae gan y corff broses a pholisi penodol ar gyfer ymateb i rieni os oes materion sydd angen sylw a’u gweithredu. |
| **Awdurdod Lleol** | |
| Wedi i'r plant olaf ymadael prin iawn ydy cefnogaeth y Swyddogion Addysg wedi bod i'r Llywodraethwyr sydd yn awyddus i weld defnydd priodol cymdeithasol a Chymreig yn cael ei wneud o'r adeilad a'r safle. Pam? | Mae’r awdurdod yn gorfod dilyn protocol democrataidd sydd yn dilyn arweiniad Llywodraeth Cymru o fewn y ddogfen Cod Trefniadaeth Ysgol. Mae’r broses o sicrhau y |

| | |
|---|---|
| *After the last children have left there has been very little support from the Education Officers for the Governors who are keen to see appropriate social and Welsh use being made of the building and the site. Why?* | defnydd priodol o'r safle yn dilyn y broses hon yn weithdrefn ar wahân.<br>*The authority must follow a democratic protocol that follows the guidance of the Welsh Government within the School Organization Code. The process of ensuring the appropriate use of the site following this process is a separate procedure.* |
| Pa gamau gymerodd Awdurdod Addysg Sir Conwy i osgoi gorfod cau'r ysgol?<br>*What steps did the Conwy County Education Authority take to avoid having to close the school?* | Mae'r awdurdod wedi gweithio ar y cyd gyda GwE er mwyn sicrhau bod rhaglen o gymorth ar gael i'r Ysgol er mwyn sicrhau safonau a rheolaeth dda. Roedd yr Awdurdod yn derbyn adborth ar y gwaith hwn ac yn cyfarfod y pennaeth a'r Llywodraethwyr fel rhan o'i rhaglen waith naturiol. By cyfarfodydd penodol rhwng swyddogion Addysg yr awdurdod, y llywodraethwyr a'r pennaeth ar argymhellion y byddai yn cefnogi hyrwyddo yr Ysgol.<br>*The authority has worked jointly with GwE to ensure that a programme of support is available to the School to ensure good standards and management. The Authority was receiving feedback on this work and meeting the headteacher and the Governors as part of its natural work programme. Specific meetings were held between the authority's Education officers, the governors and the headteacher on recommendations that would support the promotion of the School.* |
| Beth fu ymateb Awdurdod Addysg Sir Conwy bob tro roedd rhieni yn symud eu plant i ysgolion yn Sir Ddinbych?<br>*What has been the response of the Conwy County Education Authority every time parents moved their children to schools in Denbighshire?* | Roedd yr awdurdod yn derbyn adroddiadau ar niferoedd disgyblion yr Ysgol a bu cyfarfodydd gyda'r Ysgol a'r Llywodraethwyr am ddulliau o hybu a marchnata yr Ysgol yn 2020. Cyfrifoldeb yr Ysgol fyddai gwneud hynny.<br>*The authority received reports on the numbers of the School's pupils and there were meetings with the School and the Governors about methods of promoting and marketing the School in 2020. It would be the School's responsibility to do that.* |
| Pa ystyriaethau ffederaleiddio gynigiwyd i Lywodraethwyr, staff, rhieni a phlant Ysgol Llannefydd? Does dim tystiolaeth bod hyn wedi digwydd o gwbl.<br>*What federalization considerations were proposed to Governors, staff, parents, and children of Ysgol Llannefydd? There is no evidence that this happened at all.* | Fe roddwyd yr argymhelliad i'r Ysgol cyn y cyfnod Clo i'r tîm arwain ddechrau cydweithio gydag Ysgolion gyfagos ar rai drefniadau penodol e.e. Ymarfer Corff. Yn anffodus oherwydd y pandemig ni wreiddiwyd y gwaith hwn gan yr Ysgol.<br>*The recommendation was given to the School before the lockdown period for the leadership team to start collaborating with neighbouring Schools on certain specific arrangements e.g. Physical education. Unfortunately due to the pandemic this work was not implemented by the School.* |
| Ydi'r Awdurdod Addysg yn sylweddoli effaith tymor hir y penderfyniad i gau'r ysgol ar bentref gwledig Cymreig?<br>*Does the Education Authority realize the long-term impact of the decision to close the school on a rural Welsh village?* | Mae yn rhan annatod o bolisi yr awdurdod a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod diwylliant ac iaith yn ffynnu yn ein ardaloedd gwledig a bod cydraddoldeb ar gyfer ein holl ddysgwyr ar draws safleoedd addysgol yr awdurdod.<br>*It is an integral part of the authority's and the Welsh Government's policy to ensure that culture and language flourish in our rural areas and that there is equality for all our learners across the authority's educational sites.* |
| Pa wersi mae Awdurdod Addysg Sir Conwy wedi eu dysgu o ran y gefnogaeth a'r arweiniad ddylai gael ei chynnig i ysgolion eraill fydd yn wynebu'r un bygythiad yn y dyfodol? | Y mae'r Awdurdod yn gweithio yn agos gyda'i chlystyrau o ysgolion, GwE ac ESTYN ar sicrhau bod ein holl ysgolion yn yr awdurdod yn |

| | |
|---|---|
| *What lessons has the Conwy County Education Authority learned in terms of the support and guidance that should be offered to other schools that will face the same threat in the future?* | ffynnu a llwyddo. Mae gennym brosesau monitro mewnol sydd yn sicrhau bod gwybodaeth a data yn cael ei drafod a rhaglen waith benodol ar gyfer cynnal safonau a rheolaeth gyson dda yn ein hysgolion.<br>*The Authority collaborates closely with its constituent schools, GwE and ESTYN to ensure that all our schools in the authority thrive and succeed. We have internal monitoring processes which ensure that information and data is discussed and a specific work program for maintaining consistently good standards and management in our schools.* |
| Fydd Awdurdod Addysg Sir Conwy yn gwrando ar lais y gymuned wrth ystyried dyfodol safle'r ysgol?<br>*Will the Conwy County Education Authority listen to the voice of the community when considering the future of the school site?* | Os gwneir y penderfyniad i gau Ysgol Llannefydd, bydd tîm Ystadau a Rheoli Asedau Conwy yn dilyn eu proses arferol i ganfod defnydd addas ar gyfer yr adeilad.<br>*If a decision is made to close Ysgol Llannefydd, Conwy's Estates and Asset Management team will follow their usual process to identify a suitable use for the building.* |

## 4. Adborth ESTYN

Roedd yr adborth a ddarparwyd gan ESTYN yn canolbwyntio ar ddau faes, **y gymuned** a **chapasiti'r ysgol**. Mae eu sylwadau, ac ymateb Conwy wedi'u nodi isod.

**Y Gymuned:**

**ESTYN**

*"Er y gallwn weld y rhesymeg mewn cau'r ysgol o safbwynt darpariaeth addysg yn yr ardal, nid yw'r awdurdod lleol wedi nodi'n glir os yw asesiad effaith cymunedol wedi cael ei gynnal, nac ychwaith sut y bydd yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi o'r asesiad hwnnw.*

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Roedd manylion yr asesiad effaith cymunedol yn ffurfio rhan o'r adroddiad cychwynnol a ddarparwyd i'r Cabinet ar 12 Gorffennaf ac yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r ysgol yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw weithgareddau cymunedol ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, nid oes gan Ysgol Llannefydd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cyfleusterau gofal plant tu allan i'r ysgol. Nid oes Clwb ar ôl Ysgol neu Gylch Meithrin ar y safle ac nid yw'r ysgol yn darparu unrhyw gyfleusterau ar gyfer defnydd cymunedol h.y. clwb ieuenctid / grŵp chwarae.

Mae darpariaeth cyfleusterau gofal plant tu allan i'r ysgol ac addysg amgen o fewn 6 milltir o Lannefydd ac mae Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Conwy yn cynnig cludiant am ddim i ddisgyblion cynradd sy'n byw dros 2 filltir o'u hysgol addas agosaf.

Mae cyfleuster cymunedol ger yr ysgol hefyd, sef Neuadd Blwyf Llannefydd.

**Capasiti'r Ysgol:**

**ESTYN**

*"Er bod yr awdurdod lleol wedi dweud, "Bydd Llannefydd wedyn yn cael ei gynnwys yn y dalgylch ar gyfer Ysgol Bro Aled', nid yw'r glir os oes digon o le yn Ysgol Bro Aled ar y gyfer y disgyblion sydd wedi'u dadleoli i fodloni'r amod hwn."*

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Roedd y manylion ynglŷn â chapasiti ysgolion eraill yn yr ardal yn rhan o'r adroddiad cychwynnol a ddarparwyd i'r Cabinet ar 12 Gorffennaf 2022, fel y dengys yn y tabl isod, sy'n dangos, yn defnyddio'r ffigyrau diweddaraf sydd ar gael, bod 28 lle gwag yn Ysgol Bro Aled.

| Ysgol | Pellter o Ysgol Llannefydd ac amser y siwrnai yn fras | Disgyblion ar y Gofrestr (ac eithrio disgyblion oed meithrin) | Capasiti | Sgôr ESTYN | Categori Iaith |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Llannefydd | Amherthnasol | 0 | 78 | Da | Categori 1 |
| Ysgol Talhaearn | 4.4 milltir / 15 munud | 48 | 60 | Da | Categori 4 |
| Ysgol Bro Aled | 5.6 milltir / 20 munud | 66 | 94 | Boddhaol | Categori 1 |
| Ysgol Betws yn Rhos | 5.5 milltir / 20 munud | 59 | 77 | Da | Categori 1 |

- Categori 1 - Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg.
- Categori 4 - Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond gyda defnydd sylweddol o Gymraeg.

Gellir gweld yr ymateb llawn a gafwyd gan Estyn ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

**5. Penderfyniad y Cabinet**

Bu i Aelodau Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2022 i drafod y cynnig i gau Ysgol Llannefydd a rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi Hysbysiad Statudol ffurfiol ar 5 Medi 2022 (i gau Ysgol Llannefydd o 31 Rhagfyr 2022).

Fe sbardunodd hyn gyfnod rhybudd o 28 diwrnod a oedd yn rhoi cyfle i unrhyw fudd-ddeiliaid cysylltiedig gyflwyno eu barn am y cynnig. Dechreuodd y cyfnod rhybudd ar 5 Medi 2022 a daeth i ben ar 4 Hydref 2022 (caniatawyd diwrnod ychwanegol i'r cyfnod 28 diwrnod oherwydd y Gŵyl y Banc ychwanegol a gafwyd (19 Medi).

Bydd y penderfyniad i gau Ysgol Llannefydd yn ffurfiol o 31 Rhagfyr 2022 neu beidio, yn cael ei roi gerbron Cabinet Conwy ar 13 Rhagfyr 2022.

**6. Ymateb Estyn i'r hysbysiad i gau Ysgol Llannefydd**

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru mewn ymateb i'r hysbysiad a roddwyd, yn unol ag adran 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Ail Rifyn) bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn cynnig:

• O 31 Rhagfyr 2022, i gau Ysgol Llannefydd, Conwy, sydd yn cael ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar hyn o bryd.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn berthnasol i gynigion i gau ysgol fach a wneir o dan adran 43. Fodd bynnag, mae Adran 3.6 y Cod yn nodi y dylai'r cynigydd, 'barhau i ystyried y ffactorau a nodir ym Mhennod 1 y Cod hwn'.

Mae Adran 1.7 y Cod yn nodi:

*'…mewn rhai ardaloedd, efallai mai ysgol fydd y prif ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol hefyd, a gallai ei chau arwain at oblygiadau y tu hwnt i ddarparu addysg.' Felly, '**dylai**'r achos a gaiff ei baratoi gan y rhai sy'n cyflwyno'r cynigion ddangos bod effaith cau'r ysgol ar y gymuned wedi'i hasesu drwy lunio Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a dangos sut y gellid cynnal unrhyw gyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd.'*

Er y gallwn weld y rhesymeg mewn cau'r ysgol o safbwynt darpariaeth addysg yn yr ardal, nid yw'r awdurdod lleol wedi nodi'n glir os yw asesiad effaith cymunedol wedi cael ei gynnal, nac ychwaith sut y bydd yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi o'r asesiad hwnnw.

Mae Adran 7 y Cod yn ymwneud yn benodol â 'chau ysgol gyda llai na 10 disgybl ar y gofrestr.' O dan yr adran hon, mae'r Cod yn nodi amod o ran cyhoeddi hysbysiad i gau.

*'Os oes gan ysgol lai na 10 disgybl cofrestredig (neu os nad oes unrhyw ddisgyblion ar ôl mewn ysgol) pan gynhelir y cyfrifiad ym mis Ionawr, mae Deddf 2013 yn caniatáu i gyrff llywodraethu/awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol yn swyddogol. Yr unig beth y byddai'n ofynnol iddynt ei wneud o dan y weithdrefn honno fyddai cyhoeddi'r hysbysiad cau – byddai'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, cyhyd â bod digon o leoedd mewn ysgolion cyfatebol wedi'u nodi a fyddai'n rhesymol hygyrch i'r disgyblion hynny sydd wedi'u dadleoli neu a allai gael eu dadleoli.'*

Er bod yr awdurdod lleol wedi dweud, "Bydd Llannefydd wedyn yn cael ei gynnwys yn y dalgylch ar gyfer Ysgol Bro Aled', nid yw'r glir os oes digon o le yn Ysgol Bro Aled ar y gyfer y disgyblion sydd wedi'u dadleoli i fodloni'r amod hwn.

**7.Ymateb i'r Rhybudd Statudol i gau Ysgol Llannefydd, ar y cyd gan Gorff Llywodraethol Ysgol Llannefydd a Chyngor Cymuned Llannefydd.**

Ysgrifennwn atoch ar ran trigolion Cymuned Llannefydd, i ddatgan ein diddordeb mewn datblygu adeilad a safle’r ysgol at ddibenion lleol, yn dilyn cau’r Ysgol ar y 31ain o Ragfyr 2022.

Mae trigolion dalgylch yr ysgol wedi dod i delerau â gweld yr Ysgol yn cau ac yn deall bod hynny, bellach yn anochel. Rhaid hefyd dderbyn y broses bresennol o gyfnod ymgynghorol, tra yn ymwybodol nad oes dim yn mynd i arbed yr ysgol rhag dod i ddiwedd ei chyfnod fel man addysgol nodedig.

Mae yn naturiol felly, yn enwedig o feddwl am leoliad canolig y safle a’r ysgol yn y pentref, bod cwestiynau nawr yn codi ynghylch dyfodol y safle.
Mae’r gofid sy’n bodoli yn sgil y bwriad i gau’r ysgol wedi arwain at awydd gwirioneddol gan y trigolion i ymchwilio i’r posibilrwydd fod y Gymuned yn cymryd cyfrifoldeb hir dymor o’r safle, o bosib mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae amryw o syniadau wedi eu cynnig, sy’n berthnasol i’r brif weledigaeth o greu Hwb a man ymgynnull cwmpasol i bob oed. Byddai Hwb o’r fath yn gwasanaethu'r gymuned gyffredinol, gan amcanu i fod yn ffwlcrwm i hybu a chefnogi cymdeithasau a sefydliadau lleol. Fe fyddai pwyslais ar gyfleusterau ar gyfer hybu iechyd a lles - corfforol a meddyliol, ynghyd â darparu cefnogaeth ac anogaeth i’r iaith Gymraeg, ond heb elyniaethu trigolion di-Gymraeg.

Braslun yw’r uchod, gan ei bod hi’n rhy gynnar i fynd i fanylder a cheisio rhoi gormod o gig ar yr asgwrn. Yn ogystal, mae cymuned Llannefydd yn y broses o ail-fodelu Neuadd y gymuned, felly byddai adeilad a safle’r ysgol yn gyfle i ddatblygu Hwb a fyddai’n cynnig gweithgareddau a digwyddiadau gwahanol i’r rhai a gynhelir yn y Neuadd.

Mae’r rhestr isod yn grynodeb o rai o’r syniadau sydd wedi eu cynnig hyd yn hyn, megis defnydd arfaethedig i’r Hwb:

Parc Chwarae Plant
Parc Sglefrfyrddio
Cwrt Tennis/Pêl Rwyd/Pêl Foli (ar yr iard bresennol)
Byrddau Picnic
Man ymgynnull i gerddwyr ynghyd â map ar fwrdd Hysbysu
Bar Coffi
Siop fach yn gwerthu hanfodion
Lawnt y pentref (village green)
Gerddi ar osod
Oriel/Stiwdio gelf
Unedau busnes bach
Gwasanaeth argraffu a llungopïo
Ystafell gyfrifiaduron
Canolfan i adael pacedi Amazon, ac ati
Storfa adnoddau cymunedol

Dosbarthiadau ioga a pilates
Chwaraeon a gemau dan do, e.e. tenis bwrdd, snwcer, pŵl.
Mae'n deg dweud mai'r Ysgol oedd calon y gymuned i bob pwrpas. Yn naturiol, mae teimladau cryf iawn ynghylch cau'r ysgol o fewn y gymuned, ond mae yma hefyd deimladau cryf iawn y dylid cael gweledigaeth ar gyfer yr adeilad a'r safle sydd yn mynd i arwain at adnodd gwerthfawr a defnyddiol i'r gymuned gyfan. Yn sicr byddai hynny yn lleddfu cryn dipyn ar y boen o golli ysgol oedd â dros 80 o blant yn ei mynychu, lai na 20 mlynedd yn ôl! Dyna pam mae'r gymuned yn disgwyl i sefydliadau ac unigolion o fewn y gymuned i fod yn rhagweithiol ynghylch dyfodol yr adeilad a'r safle.

Wrth gwrs, mae ein gallu i wireddu menter fel hyn yn dibynnu'n helaeth ar y lefel o gefnogaeth, cydweithrediad a chymorth y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gallu ei gynnig i ni. Mae'n anochel y byddem hefyd yn edrych tuag at ffynonellau ariannu niferus yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn ariannu menter o'r fath.

Fe fyddem felly, yn gwir werthfawrogi cychwyn y drafodaeth ynghylch dyfodol yr adeilad a'r safle mor fuan â phosibl.

Yn ddelfrydol, fe fyddai'r safle'n trosglwyddo i'r gymuned heb doriad yn dilyn dyddiad cau'r ysgol, gan osgoi cyfnod lle bo'r adeilad a'r safle yn wag. Er mwyn gallu gwneud hynny, mae angen symud ymlaen ar fyrder.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar i gydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a gwerthfawrogwn eich arweiniad ynghylch y ffordd orau ymlaen ar camau nesaf i'w cymryd.

Pan mae un drws yn cau, mae drysau eraill yn agor…ac mae cyfle fan hyn i ni greu adnodd fydd yn tynnu sylw Cymru gyfan, a hynny mewn cyfnod cythryblus o ran yr economi, gwleidyddiaeth a iechyd a lles - yng Nghonwy, Cymru a thu hwnt!

**J. Rhys Williams, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llannefydd**

**Dewi Roberts, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llannefydd**